| CYFARFOD | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
|---|---|
| DYDDIAD | 30 Medi 2024 |
| TEITL | Balansau Ysgolion<br>Blwyddyn Gyllidol 2023/24 |
| PWRPAS | Cyflwyno er gwybodaeth |
| ARGYMHELLIAD | Derbyn yr adroddiad |
| AWDUR | Kathy Bell – Cyfrifydd Grŵp Ysgolion |

## 1 <u>Balansau Ysgolion</u>

1.1 Atodir er gwybodaeth patrwm balansau ysgolion dros 5 mlynedd, sydd hefyd yn cynnwys balansau ysgolion unigol ar 31 Mawrth 2024 (**atodiad 1**).

Dyma grynodeb o'r cyfnod cyn COVID –

| 31 Mawrth | cynradd | dilynol | uwchradd | arbennig | **cyfanswm** | + / - | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2017 | £2,018,515 | | £816,787 | £43,230 | **£2,878,532** | | |
| 2018 | £2,743,045 | £425,372 | £893,695 | -£43,633 | **£4,018,479** | £1,139,947 | |
| 2019 | £2,481,037 | £484,789 | £973,687 | £60,860 | **£4,000,373** | -£18,105 | |
| 2020 | £2,469,193 | £398,894 | £1,428,560 | £36,343 | **£4,332,991** | £332,617 | |
| 2021 | £5,847,190 | £656,128 | £3,848,722 | £401,222 | **£10,753,263** | £6,420,272 | COVID |
| 2022 | £9,123,329 | £843,785 | £6,066,267 | £661,596 | **£16,694,977** | £5,941,715 | COVID |
| 2023 | £6,573,803 | £820,853 | £3,980,691 | £541,680 | **£11,917,027** | -£4,777,950 | |
| 2024 | £4,980,580 | £811,962 | £2,161,056 | £588,473 | **£8,542,071** | -£3,374,957 | |

Gwelwch effaith blynyddoedd COVID ar balansau ysgolion. Dros y ddwy flynedd diwethaf mae lleihad sylweddol wedi bod a rhagwelir lleihad pellach erbyn diwedd 2024/25.

Dyma ydi'r patrwm cenedlaethol. Nid yw balansau ysgolion Cymru wedi'i cyhoeddi gan Llywodraeth Cymru hyd yma, ond mae gwaith gan cyfrifwyr yr awdurdodau yn dangos lleihad o £95miliwn ym malansau rhwng Mawrth 2023 a Mawrth 2024.

1.2 Mae 3 ysgol gynradd a 3 ysgol uwchradd gyda diffyg ar ddiwedd y flwyddyn ariannol 20232/24. Mae swyddogion addysg a cyllid yn gweithio gyda'r ysgolion i adnabod datrusiad i'r sefyllfa.

## 2 Cynllun Cyfarwyddo Defnydd Balansau

2.1 Mae gan yr Adran Addysg rym i gyfarwyddo'r corff llywodraethu sut i wario'r elfen o'u balansau sydd dros y trothwy o £50,000 i Ysgolion Cynradd ac £100,000 i Ysgolion Uwchradd ac Arbennig. Yn absenoldeb unrhyw ddarpariaeth benodol yn y Rheoliadau, trothwy o £100,000 sydd hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer Ysgolion Dilynol.

2.2 Mae'r trefn gweithredu yn parhau fel y llynedd –

- pob ysgol gyda dros 5% o falansau neu gyda balansau dros y trothwy i gwblhau holiadur ar ddefnydd bwriedir
- yn ddibynnol ar gynnwys yr holiadur a posib sgwrs gyda'r ysgol bydd yr Adran Addysg yn cyfarwyddo sut i ddefnyddio'r balansau
- adolygu os ydi ysgol wedi gweithredu yn unol a chyfarwyddid yr Adran Addysg ac os ddim tynnu'r arian yn ôl
- mae cyfle i swyddogion gyflwyno sylwadau am fuddsoddiadau penodol fyddai yn arwain at wella'r ysgol

## 3. Casgliad

3.1 Mae ysgolion yn defnyddio balansau i gefnogi disgyblion presennol. Wrth osod cyllidebau 2024/25 mae defnydd pellach o'r balansau. Mae defnydd o balansau i osod cyllideb unai yn yn gohirio toriadau fydd rhaid gweithredu yn y dyfodol, neu i bontio cyfnod lle rhagwelir cynnydd mewn cyllid yn y dyfodol agos.

## 4. Argymhelliad

**4.1 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid gydweithio yn agos gydag ysgolion i wneud defnydd doeth o'r balansau sylweddol sydd yn parhau ar gael yn 2024/25.**

**4.2 Dylai'r Adran Addysg a'r Adran Gyllid barhau i fonitro cyllidebau ysgolion.**